

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 20 Mawrth 2018

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS:** CAM GWEITHREDU/CYDYMFFURFIO

**CATEGORI:** POLISI

**Teitl:** Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** – O dan adolygiad parhaus

**I'w weithredu gan:**

Brif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Cyllid,  
Cyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu Byrddau ac  
Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru

**Angen gweithredu erbyn:** 1 Ebrill 2018

**Anfonwyd gan:** Carys Thomas, Pennaeth Strategaeth Ymchwil a Datblygu'r GIG, Llywodraeth Cymru

**Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Claire Bond, Rheolwr Perfformiad a Chyllid y GIG  
Yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, 4ydd Llawr  
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ  
Ffôn: 03000 62 3591 E-bost: [HSSDHPDSCHR@gov.wales](mailto:HSSDHPDSCHR@gov.wales)

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn, a'r atodiad isod, ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:

<https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/polisi-ariannu-ymchwil-a-datblygur-gig/?force=2>

Atodiad 1. Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG

## Crynodeb

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn yw sicrhau eglurder ynghylch mabwysiadu a gweithredu Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG ar draws holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG yn canolbwyntio ar reolaeth ac atebolrwydd mewn perthynas â chyllid ymchwil yn GIG Cymru, ac mae'n gydnaws â'r canllawiau diweddar ar weithredu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Ymchwil a Datblygu, fel y'u nodir yn Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (WHC(2018)004).
2. Mae gweithredu rheolaeth ariannol briodol, sy'n cefnogi gonestrwydd ariannol, yr un mor bwysig mewn ymchwil ag mewn unrhyw faes arall o gyllid y GIG a'r defnydd o gyllid cyhoeddus. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG weithredu polisi cyllid sy'n gydnaws ac yn cydymffurfio ag egwyddorion a phrosesau Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG, fel y'u datblygwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
3. Dylai Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd nodi statws y ddogfen hon, gan sicrhau bod y cylchlythyr hwn yn cael ei rannu gyda chydweithwyr a bod y camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn cael eu hamlygu.

## Cefndir

4. Gall ymchwil o ansawdd uchel ddod â hanes o iechyd gwael i ben, a datblygu cymdeithas ffyniannus, drwy gydweithio rhwng prifysgolion, diwydiant a'r trydydd sector i greu gweithlu sydd â lefel uchel o sgiliau. Mae hyn i gyd yn rhan o'r prif amcanion a nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb'. Felly, mae gan Fyrddau Gweithredol sefydliadau'r GIG rôl hanfodol yn y gwaith o arwain diwylliant sy'n hyrwyddo gwella parhaus o ran y gofal a gynigir i gleifion a'r cyhoedd.
5. Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid Ymchwil a Datblygu<sup>1</sup> i'r holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd er mwyn hyrwyddo a datblygu plattfform o ymchwil ansawdd uchel. Yn ogystal â dod â manteision i gleifion, mae

---

<sup>1</sup>Fe elwir hyn yn Gyllid Cymorth a Chyflenwi Lleol

sefydliadau sy'n cynnal ymchwil yn darparu gofal gwell, gan fod ymchwil yn cynhyrchu tystiolaeth a all weddnewid arferion yn y pen draw.

## **Gonestrwydd Ariannol**

6. Mae parhad llwyddiant a buddsoddi mewn ymchwil yn dibynnu ar weithredu systemau llif cyllid effeithiol ac effeithlon sy'n gyson, yn deg ac yn dryloyw i bawb. Mae Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG yn disgrifio'r systemau sydd ar waith ar gyfer costio'r gweithgarwch ymchwil a gynhelir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru, yn ogystal â systemau ar gyfer rheolaeth ariannol a chadw cyfrifon. Mae hynny'n cynnwys buddsoddi'r incwm a'r cyllid sydd ar gael i'r sefydliad eu buddsoddi mewn ymchwil o safon, a hynny drwy'r canlynol:

- Cyllid Cymorth a Chyflenwi Lleol fel y'i darperir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru
- Incwm ymchwil fasnachol
- Incwm ymchwil anfasnachol
- Cyllid elusennol a roddir at ddibenion ymchwil
- Incwm grant o ymchwil a arweinir gan y sefydliad
- Incwm grant o ymchwil yn mae'r sefydliad yn ei chynnal neu ei lletya

7. Mae Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG yn gydnaws â'r egwyddorion ar gyfer gonestrwydd ariannol, tryloywder, ac atebolrwydd fel y'u nodir yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus gan Drysorlys EM, ac fel sy'n cael eu hail-adrodd yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y mae Gweinidogion Cymru wedi eu hanfon i Fyrddau Iechyd Lleol, drwy ddefnyddio pwerau cyfarwyddyd a ddarperir o dan adran 12 (3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

## **Cam gweithredu**

8. O 1 Ebrill, rhaid i holl sefydliadau'r GIG gydymffurfio â Pholisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG, a bydd cyllid Cymorth a Chyflenwi Lleol yn cael ei ryddhau'n seiliedig ar hynny. Er i'r flwyddyn 2017/18 fod yn gyfnod gweithredu, cynigir canllawiau pellach i'r GIG yn y dyfodol. Caiff cydymffurfedd ei asesu drwy

archwiliad ariannol o astudiaethau ymchwil masnachol ac anfasnachol a fydd yn rhan o'r cyfarfodydd rheoli perfformiad blynyddol ar gyfer Ymchwil a Datblygu a gynhelir gydag Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru.

## **Anfonir at: Ysgrifenyddion Bwrdd, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru  
Ysgrifennydd Grŵp yr Ysgrifenyddion Bwrdd  
Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyllid, a Chyfarwyddwr Cynllunio Iechyd Cymru  
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

## **Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu, Cyfarwyddwyr Nyrsio, Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Gofal Iechyd:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

## **Llywodraeth Cymru**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Tîm Gweithredu AIGC  
Tîm Cyfathrebu'r AIGC  
Prif Swyddog Meddygol  
Prif Swyddog Nyrsio  
Prif Swyddog Gwyddonol  
Prif Fferylllydd  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflyrau Iechyd Difrifol  
Y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Gofal Sylfaenol